Bwgan Brain

Bore da bwgan brain!
A chi, adar bach!

Dwy fraich ar led,
Cetyn yn ei geg,
Trwyn hir a main,
Dyma'r bwgan brain.

Het ddu tad-cu,
Siaced goch mam-gu,
Trwyn hir a main,
Dyma'r bwgan brain.

A dyma fwgan brain arall. Helo!

Dwy fraich ar led,
Blodyn yn ei cheg,
Trwyn hir a main,
Dyma'r bwgan brain.

Het las tad-cu,
Siaced binc mam-gu,
Trwyn hir a main,
Dyma'r bwgan brain.

© 2020 S4C